Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Comisiwn y Cynulliad

Lleoliad:
**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Ty Hywel**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 24 Tachwedd 2011**

Amser:
**09:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

**Carys Evans, 029 2089 8598**
Ysgrifenyddiaeth

## Agenda
AC(4)2011(6)

## 1. Cyflwyniad

**Cyflwyniad ac ymddiheuriadau**

**Datganiadau o fuddiant**

**Cofnodion y cyfarfod blaenorol** (Tudalennau 1 - 5)

## 2. Gwasanaethau Dwyieithog (Tudalennau 6 - 19)

## 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Rheoli Carbon (Tudalennau 20 - 30)

## 4. Darparu gwasanaethau TGCh yn y dyfodol (Tudalennau 31 - 39)

## 5. Cyllideb Atodol 2011-12 (Tudalennau 40 - 41)

## 6. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeiliaid portffolios (Tudalennau 42 - 43)

## 7. Rhaglen Dreigl Comisiwn y Cynulliad (Tudalennau 44 - 45)

## 8. Unrhyw Fusnes Arall

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission**

**NAFWC 2011**
**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2011**

**Dyddiad:** 24 Tachwedd 2011
**Amser:** 09.30
**Lleoliad:** Swyddfa'r Llywydd

# Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2011

**Yn bresennol:**
Y Llywydd, Cadeirydd
Peter Black AC
Angela Burns AC
Sandy Mewies AC
Rhodri Glyn Thomas AC

**Swyddogion yn bresennol:**
Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Dianne Bevan, Prif Swyddog Gweithredu
Keith Bush, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Craig Stephenson, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau
Dr Non Gwilym, Pennaeth Cyfathrebu
Brian Davidge, Pennaeth TGCh a Darlledu
Carys Evans, Prif Ysgrifennydd y Comisiwn

**Cynghorwyr annibynnol:**
Tim Knighton

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2011**

## 1. Cyflwyniad y Cadeirydd

Nodwyd bod y Cynulliad wedi cytuno ar gyllideb y Comisiwn ar 16 Tachwedd 2011. Diolchwyd i Angela Burns AC am arwain y gwaith ar y gyllideb ac am ei gyflwyno'n effeithiol i'r Cynulliad.

**Datganiadau o fuddiant**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2011**

Cytunwyd ar y cofnodion yn ffurfiol.

## 2. Gwasanaethau dwyieithog

Yn ei gyfarfod ar 14 Gorffennaf 2011, cytunodd y Comisiwn i gynnal ymgynghoriad ar Fil (Drafft) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) ac ar y Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog drafft ac i ddarparu Cofnod dwyieithog o drafodion y Cyfarfod Llawn yn amodol ar y ffaith bod y trefniadau'n gynaliadwy ac yn rhesymol o ran cost.

Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus cyn y broses ddeddfu ar y Bil a'r Cynllun drafft, bu swyddogion yn dadansoddi'r ymatebion. Roedd y cyfranwyr wedi awgrymu nifer o ddiwygiadau i'r Bil a'r Cynllun. Nodwyd yr ymdrech a wnaed i annog pobl i gyfrannu at y broses ymgynghori ac roedd y Comisiwn yn croesawu'r ymatebion a ddaeth i law.

Penderfynodd y Comisiwn na fyddai'r ddyletswydd i ddarparu Cofnod cwbl ddwyieithog o drafodion y Cyfarfod Llawn yn cael ei chynnwys ar wyneb y Bil. Cytunwyd ar weddill y diwygiadau arfaethedig i'r Bil drafft. Bu'r Comisiwn yn ystyried y diwygiadau posibl i'r Cynllun a gwnaeth nifer o awgrymiadau gan ofyn i swyddogion eu hadlewyrchu yn y drafft arfaethedig.

Ystyriwyd y sylwadau a wnaed yn ystod y broses ymgynghori ynghylch y Cofnod, a'r ymchwiliadau a wnaed i'r datblygiadau technolegol diweddaraf i gynorthwyo'r gwasanaethau cyfieithu.

Penderfynodd y Comisiwn y bydd Cofnod ysgrifenedig o drafodion y Cyfarfod Llawn yn cael ei gyhoeddi, o fewn pum niwrnod gwaith, o fis Ionawr 2012, gyda chyfieithiad o gyfraniadau o'r naill iaith i'r llall. Bwriedir cyflawni hyn drwy ddefnyddio cyfuniad o systemau cyfieithu peirianyddol a phrawfddarllenwyr, ynghyd â system reoli a golygu fewnol er mwyn sicrhau bod y Cofnod yn cyrraedd safonau presennol y Cynulliad o ran arddull, cysondeb ac ansawdd. Byddai'r union gost yn

dibynnu ar sawl ffactor, gan gynnwys pa mor gyflym y bydd datblygiadau technolegol yn cynyddu cywirdeb y cyfieithiad peirianyddol ond, mewn unrhyw achos, ni fydd y gost yn fwy na £95,000 y flwyddyn.

Bydd y Bil drafft diwygiedig, y Memorandwm Esboniadol ategol, a'r Cynllun arfaethedig yn cael eu cyflwyno ym mis Ionawr 2012.

Cafodd Rhodri Glyn Thomas AC ei awdurdodi gan y Comisiwn i fod yn gyfrifol am y Bil. Diolchodd y Comisiynwyr i Rhodri Glyn Thomas AC a'r swyddogion am y gwaith a wnaed hyd yn hyn. Diolchodd Rhodri Glyn Thomas AC i Fwrdd yr Iaith am y cymorth a roddodd.

Cam i'w gymryd: Rhodri Glyn Thomas AC i gyflwyno unrhyw welliannau terfynol i'r Bil a'r Cynllun cyn eu cyflwyno ar ôl ymgynghori ag Angela Burns AC, a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod darpariaethau ariannol perthnasol wedi'u cynnwys yn y Memorandwm Esboniadol ategol.

**3. Y wybodaeth ddiweddaraf am y strategaeth Rheoli Carbon**

Ym mis Tachwedd 2009, cytunodd y Comisiwn blaenorol ar strategaeth Rheoli Carbon. Roedd hyn yn cynnwys uchelgais i leihau allyriadau blynyddol 8 y cant o ran ynni a 3 y cant o ran teithio ar fusnes, ac i fod yn garbon niwtral erbyn 2015.

Roedd y Comisiwn yn croesawu'r gostyngiad o 11.1 y cant a gafwyd mewn allyriadau ynni yn ystod blwyddyn 2 ar draws ystad y Cynulliad, sy'n gyfwerth ag arbediad o 182 tunnell o garbon a thua £50,000 mewn costau. Hyd yma, gwelwyd gostyngiad o 19 y cant mewn allyriadau gyda tharged o 40 y cant erbyn 2015.

Nododd y Comisiynwyr y cynnydd da a wnaed hyd yma ac ailddatganwyd eu hymrwymiad i'r strategaeth Rheoli Carbon er mwyn cynnal statws y Cynulliad fel corff seneddol blaenllaw ym maes cynaliadwyedd. Cytunwyd mewn egwyddor i fwrw ymlaen â phrosiect peilot i osod ffenestri newydd yn Nhŷ Hywel sydd wedi'u dylunio'n well, ac sy'n lled-awtomatig i alluogi awyru naturiol effeithlon.

Cam i'w gymryd: Swyddogion i lunio amcangyfrif manwl o gost y prosiect peilot i'r Bwrdd Rheoli ei gymeradwyo.

4. **Darparu gwasanaethau TGCh yn y dyfodol**

Ar hyn o bryd, caiff gwasanaethau TGCh y Cynulliad eu darparu gan Atos fel rhan o'r contract Merlin, a fydd yn dod i ben yn 2014. Nid oes

gan y Cynulliad gytundeb ag Atos. Yn hytrach, darperir y gwasanaethau yn unol â Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a lofnodwyd gan y Comisiwn a Gweinidogion Cymru pan wahanwyd y ddau gorff yn 2007. Yn dilyn prosiect UNO, a greodd blatfform TGCh annibynnol, nid yw systemau'r Cynulliad bellach wedi'u hintegreiddio â rhai Llywodraeth Cymru, sy'n rhoi mwy o ryddid i'r Cynulliad o ran dewis darpariaethau TGCh yn y dyfodol.

Mae'r Comisiwn yn cefnogi'r weledigaeth ar gyfer darparu gwasanaethau TGCh yn y dyfodol, a'r ystod o fodelau y gellir eu defnyddio i ddarparu'r gwasanaethau hyn. Cytunwyd y byddai swyddogion yn parhau i ymchwilio i'r opsiynau a gytunwyd.

5. **Y gyllideb atodol ar gyfer 2011-12**

Yn ei gyllideb ar gyfer 2011-12, mae'r Comisiwn wedi cynnwys cronfeydd ar wahân i dalu am gostau sy'n gysylltiedig ag etholiadau, gan ei gwneud yn glir y bydd unrhyw arian sy'n weddill yn cael ei dalu'n ôl i floc Cymru drwy gyllideb atodol.

Roedd cyllideb Aelodau'r Cynulliad yn cynnwys £3.460 miliwn yn seiliedig ar amcangyfrif y bydd trosiant 30 Aelod gyda chost cyfartalog o £115,000 ar gyfer pob Aelod, ac roedd cyllideb Gwasanaethau'r Cynulliad yn cynnwys £0.655 miliwn. Cafodd y dyraniadau cyllidebol hyn eu clustnodi ar gyfer costau'n ymwneud â'r etholiad. Nodwyd bod y gwir drosiant o 23 Aelod wedi arwain at danwariant o £1.8 miliwn yn erbyn cyllideb Aelodau'r Cynulliad a thanwariant o £0.2 miliwn yn erbyn cyllideb Gwasanaethau'r Cynulliad.

Cytunodd y Comisiwn y byddai £0.2 miliwn yn cael ei roi yn ôl i floc Cymru drwy gynnig cyllideb atodol.

**6. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeiliaid portffolios**

Cyflwynodd y Comisiynwyr y wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgareddau o fewn eu portffolios.

Dywedodd Sandy Mewies AC, y Comisiynydd sy'n gyfrifol am gydraddoldeb, y bydd yn gweithio â'r Tîm Cydraddoldeb ar ddatblygu cynllun cydraddoldeb y Comisiwn a'r Gronfa Fynediad i Aelodau.

Cyflwynodd yr holl Gomisiynwyr sylwadau am yr adborth yr oeddent wedi'i gael gan yr Aelodau a'u staff ynghylch y problemau TGCh a gafwyd a chytunwyd ei bod yn annerbyniol bod y problemau wedi parhau cyhyd. Nododd Peter Black fod cyfarfod wedi'i gynnal â

swyddogion ar lefel uwch yn BT a'u bod wedi rhoi sicrwydd y bydd y problemau band eang, a oedd wedi effeithio ar sawl rhan o'r Deyrnas Unedig, yn cael eu datrys o fewn tua 10 niwrnod. Dylai unrhyw broblemau eraill gael eu datrys pan fydd pawb wedi trosglwyddo i UNO Fersiwn 2, a bydd unrhyw broblemau gyda'r system gwaith achos yn cael eu datrys ar ôl hynny. Os bydd problemau'n parhau ar ôl hynny, gofynnwyd i swyddogion fynd â'r gŵyn ymhellach gan weithio â Llywodraeth Cymru.

## 7. Rhaglen dreigl Comisiwn y Cynulliad

Nodwyd y rhaglen dreigl.

## 8. Unrhyw fusnes arall

Ni nodwyd unrhyw fusnes arall.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Comisiwn y Cynulliad
Assembly Commission

**AC(4)2011(6) Papur 2**

**Dyddiad:** 24 Tachwedd 2011
**Amser:** 09:30–11:30
**Lleoliad:** Swyddfa'r Llywydd
**Enw'r awdur a'i rhif ffôn:** Non Gwilym, estyniad 8647

# Gwasanaethau dwyieithog

## 1.0 Diben a chrynodeb

1.1 Yn ei gyfarfod ar 14 Gorffennaf 2011 cytunodd y Comisiwn i ymgynghori ar Fil (Drafft) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) a Chynllun Gwasanaethau Dwyieithog (y Cynllun) a darparu, fel rhan o'r Cynllun, Gofnod o Drafodion y Cyfarfod Llawn yn gwbl ddwyieithog o fewn pum diwrnod gwaith, ar yr amod y gellir gwneud hynny mewn ffordd gynaliadwy ac am gost resymol yn yr hirdymor.

1.2 Mae'r papur hwn yn gofyn am benderfyniadau gan y Comisiwn ynghylch sut i symud ymlaen, a hynny ar sail:

- y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymchwiliadau i ddulliau ymarferol o ddarparu Cofnod y Trafodion cwbl ddwyieithog;
- y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgynghoriad cyhoeddus (yn ogystal â thrafodaethau â staff) a'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg o'r ymgynghoriad; a'r
- newidiadau a awgrymir i'r Bil a'r Cynllun yn sgil yr ymatebion hynny.

## 2.0 Argymhellion

2.1 Gwahoddir y Comisiwn i:

a. gytuno i ddarparu Cofnod o Drafodion y Cyfarfod Llawn yn gwbl ddwyieithog fel y cynigir ym mharagraffau 3.4 i 3.6;

b. nodi'r crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Bil drafft a'r Cynllun arfaethedig fel y nodir yn Atodiad B;

c. ystyried a chymeradwyo unrhyw newidiadau i'r Bil sy'n deillio o'r ymatebion, fel y trafodir ym mharagraff 5.1;

ch. ystyried a chymeradwyo unrhyw newidiadau i'r Cynllun arfaethedig sy'n deillio o'r ymatebion, fel y trafodir ym mharagraff 5.3;

d. cytuno bod y Bil, a fydd yn ymgorffori unrhyw newidiadau a gymeradwywyd o dan bwynt c. uchod (ynghyd â'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef) yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad cyn gynted â phosibl;

dd. cytuno bod y Cynllun arfaethedig, a fydd yn ymgorffori unrhyw newidiadau a gymeradwywyd o dan bwynt ch. uchod, yn cael ei osod gerbron y Cynulliad cyn gynted â phosibl (gyda'r bwriad y bydd y gwaith craffu arno'n digwydd ochr yn ochr â'r dasg o ystyried y Bil);

e. awdurdodi Rhodri Glyn Thomas AC:

i. i fod yr aelod sy'n gyfrifol am y Bil Ieithoedd Swyddogol (Cymru), yn unol â Rheol Sefydlog 24.12;

ii. i gymeradwyo, yn unol ag unrhyw newidiadau a gymeradwywyd o dan bwynt c. ac ch. uchod, fersiynau terfynol y Bil, y Memorandwm Esboniadol a'r Cynllun (yn amodol ar gytundeb Angela Burns AC, mewn cysylltiad â darpariaethau ariannol y Memorandwm Esboniadol).

**3.0 Cofnod o Drafodion y Cyfarfod Llawn cwbl ddwyieithog.**

3.1 Yn ei gyfarfod ar 14 Gorffennaf cytunodd y Comisiwn, mewn egwyddor, i adfer Cofnod y Trafodion cwbl ddwyieithog cyn belled â bod y trefniant yn gynaliadwy yn yr hirdymor ac yn arddangos gwerth da am arian.

3.2 Bydd y Comisiynwyr am nodi, o'r 59 o ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar wasanaethau dwyieithog, bod 43 o blaid adfer Cofnod cwbl ddwyieithog fel darpariaeth i'w chynnwys yn y Bil, a bod y Cynulliad hefyd wedi cael deiseb erbyn hyn sy'n galw ar y Cynulliad i adfer Cofnod y Trafodion cwbl ddwyieithog ac arno 1,334 o lofnodion.

3.3 Yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref, bu swyddogion y Cynulliad, gyda'r bwriad o roi penderfyniad y Comisiwn ar waith, yn:

- **ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar y datblygiadau technolegol diweddaraf i gynorthwyo gwasanaethau cyfieithu.**

Yn sgil yr ymgynghoriad, comisiynodd Bwrdd yr iaith Gymraeg ymchwil newydd, annibynnol ar gyfieithu peirianyddol a'r iaith Gymraeg, a gaiff ei gwblhau erbyn canol mis Rhagfyr. Hefyd bu swyddogion mewn seminar gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar Dechnoleg a Chyfieithu ym mis Hydref, ac maent wedi ystyried nodyn cyngor y Bwrdd, sef *Yr Iaith Gymraeg, Technoleg a Chyfieithu*.

- **caffael system cof cyfieithu .** Yn ogystal â hwyluso gwaith cyfieithu'n gyffredinol, gellir defnyddio system cof cyfieithu WordFastPro hefyd i ategu mwyafrif y systemau cyfieithu peirianyddol.

- profi dwy system gyfieithu beirianyddol ar-lein, sef Google Translate a Google Translate Toolkit.

- **datblygu opsiynau ar gyfer darparu Cofnod y Trafodion cwbl ddwyieithog.** Roedd yr opsiynau hyn wedi'u seilio ar gyfartaledd o 36,000 o eiriau, wedi'u cwblhau o fewn pum diwrnod gwaith gan ddefnyddio system gyfieithu beirianyddol Google Translate Toolkit gyda WordFastPro, golygu gan gyfieithydd proffesiynol a phrawfddarllen at ddibenion sicrhau ansawdd.

3.4 Ar sail ein hymchwil a chanlyniadau ein profion, rydym yn cyfrif mai cost flynyddol cynhyrchu Cofnod y Trafodion cwbl ddwyieithog fydd tua £95k.

3.5 Dangosodd ein hymchwiliadau, felly, y gallwn ddarparu Cofnod o Drafodion y Cyfarfod Llawn cwbl ddwyieithog o fewn pum diwrnod gwaith, drwy drefniant sy'n gynaliadwy yn y tymor hwy, ac am gost resymol. Rydym yn argymell bod y trefniadau ar waith o fis Ionawr 2012 ymlaen.

3.6 Cwblheir trawsgrifiad cwbl ddwyieithog o Gofnod o Drafodion y Cyfarfod Llawn rhwng mis Medi 2010 a mis Rhagfyr 2011 pan fydd amser a chyllidebau'n caniatáu hynny, yn bennaf yn ystod cyfnodau o doriad.

**4.0 Ymgynghoriad ar y Bil (Drafft) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) a'r Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog Drafft.**

4.1 Lansiwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Fil (drafft) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) a'r Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog drafft yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar 3 Awst 2011 a daeth i ben ar 14 Hydref.

4.2 Yn ystod y cyfnod hwn:

- cysylltwyd â 587 o sefydliadau yn uniongyrchol ynglŷn â'r broses ymgynghori;
- lansiwyd ymgyrch yn y cyfryngau i roi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad a sicrhaodd sylw cadarnhaol a chywir, gan gynnwys erthyglau barn gan Rhodri Glyn Thomas yn 'Golwg' a Keith Bush yn y Western Mail;
- daeth dros 60 o gynrychiolwyr i gyfarfodydd â rhanddeiliaid a oedd yn ceisio cynorthwyo ac annog y rhai oedd yn bresennol i gyflwyno ymatebion ysgrifenedig, llawn ac ystyrlon i'r ymgynghoriad;
- cynhaliwyd 13 o gyfarfodydd staff i roi cyfle i staff ystyried effaith y cynllun ar ddarparu gwasanaethau a rhoi eu sylwadau ar hyn, a
- chynhaliwyd cyfarfod rhagarweiniol â rheolwyr y grwpiau plaid i amlinellu egwyddorion y Bil a'r Cynllun.

4.3 Gofynnodd y Comisiwn am farn pobl ar y Bil a'r Cynllun. Dyma grynodeb o'r ymatebion:

- cafwyd 59 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad cyhoeddus;
- nid oedd dau, sef Senedd Canada a Threnau Arriva Cymru, wedi mynegi barn ar y Bil na'r Cynllun;
- o'r 57 arall, roedd 50 yn uniaith Gymraeg a saith yn uniaith Saesneg;
- roedd 40 wedi'u seilio ar ymateb templed a gyhoeddwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg ar ei gwefan; ac
- yn gyffredinol, gwnaed sylwadau ar y Cynllun a'r Bil gyda'i gilydd, yn hytrach nag ymateb i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad (Atodiad A). Roedd yr ymatebion yn Gymraeg yn cytuno â'r Cynllun a/neu'r Bil neu'n dymuno eu cryfhau. Ar y llaw arall, ac eithrio un ymateb, roedd y rhai uniaith Saesneg yn erbyn y Cynllun a'r Bil (ac yn wir yn erbyn darpariaeth ddwyieithog yn gyffredinol).

4.4 Roedd yr ymatebion a gafwyd gan y cyhoedd yn cefnogi egwyddorion y Bil drafft a'r Cynllun arfaethedig yn gyffredinol. Ar wahân i chwe ymatebwr, roedd pob ymateb naill ai'n cymeradwyo egwyddorion y pecyn neu, trwy ofyn i ddarpariaethau manwl penodol gael eu cryfhau ymhellach, yn awgrymu eu bod yn cefnogi'r egwyddorion hynny yn gryf.

4.5 Roedd y themâu a nodwyd ac a drafodwyd mewn cyfarfodydd a digwyddiadau â rhanddeiliaid yn adlewyrchu'r themâu a welwyd yn yr ymatebion ysgrifenedig a ddaeth i law.

4.6 Mynegodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ei fod yn cefnogi egwyddorion y Bil a'r Cynllun, ac ar yr un pryd gwnaed nifer o gynigion manwl ganddynt ar gyfer gwneud newidiadau penodol.

4.7 Roedd yr ymgynghoriad â staff ac ymatebion staff yn canolbwyntio ar faterion ymarferol penodol ond fe'u crynhowyd er mwyn llywio'r broses o gynllunio ar gyfer darpariaethau'r Bil a'r Cynllun a'u rhoi ar waith, a bydd hyn yn cyd-daro â'r adeg pan fydd y Cynulliad yn ystyried y ddwy ddogfen.

4.8 Caiff safbwyntiau'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad eu crynhoi yn Atodiad B.

## 5.0 Diwygiadau arfaethedig i'r Bil a'r Cynllun yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad

### Y Bil

5.1 Gwahoddir y Comisiwn i ystyried a ddylid gwneud y diwygiadau a ganlyn i'r Bil yn sgil yr ymatebion a gafwyd:

a. a ydynt am osod dyletswydd i ddarparu Cofnod o Drafodion y Cyfarfod Llawn yn gwbl ddwyieithog ar wyneb y Bil ei hun, neu yn y Cynllun yn unig;

(**Trafodaeth**: Anogwyd newid o'r fath yn bendant yn yr ymatebion ysgrifenedig ac yn y cyfarfodydd â rhanddeiliaid. Er y byddai'n gyson â pholisi cyfredol y Comisiwn ar gyfieithu'r Cofnod, byddai ei ymgorffori yn y Bil yn hytrach na'r Cynllun yn golygu y byddai'n llawer mwy anodd (hy byddai'n ofynnol cyflwyno gwelliant i'r Ddeddf) newid i drefniant gwahanol rywbryd yn y dyfodol, pe bai'r Comisiwn presennol neu Gomisiwn yn y dyfodol yn penderfynu hynny. Dyma, wrth gwrs, y rheswm pam bod y rhai a ymatebodd yn

dymuno gweld y ddyletswydd wedi'i hymgorffori yn y ddeddfwriaeth yn hytrach nag yn y Cynllun, a wnaed yn unol â hi, yn unig.)

b. adolygu geiriad adran 1(2) sy'n ymwneud â defnyddio'r naill iaith swyddogol neu'r llall yn nhrafodion y Cynulliad er mwyn cyfeirio at "hawl" i wneud hynny;

(**Trafodaeth:** Nid yw hyn yn newid effaith y ddarpariaeth.)

c. newid teitl y Cynllun i "Ieithoedd Swyddogol";

(**Trafodaeth:** Nid yw hyn yn newid effaith y ddarpariaeth.)

ch. cynnwys darpariaeth yn y Bil ar gyfer paratoi adroddiadau blynyddol ar fonitro arferion cydymffurfio, ac i'r rhain gael eu gosod gerbron y Cynulliad;

(**Trafodaeth:** Mae'r Cynllun eisoes yn cynnwys gofyniad i'r Comisiwn wneud hynny ac ni fydd cynnwys ymrwymiad yn y Bil yn rhoi baich ychwanegol arno.

d. cynnwys gofyniad yn y Bil bod y Cynllun yn ymgorffori dull tryloyw ar gyfer ymdrin â chwynion ynghylch torri amodau'r Cynllun; ac

(**Trafodaeth:** Mae'r Cynllun eisoes yn cyfeirio at weithdrefn ar gyfer cwyno ynghylch peidio â chydymffurfio ac ni fydd cynnwys gofyniad am hynny yn y Bil yn faich ychwanegol. Mae'n bosibl y bydd angen cryfhau'r weithdrefn yn y Cynllun, fodd bynnag, er enghraifft drwy ei gwneud yn ofynnol bod dyfarniadau ynglŷn â chwynion yn cael eu cyhoeddi.)

dd. newid y gofyniad presennol bod y Cynllun yn cael ei adolygu o leiaf unwaith bob pedair blynedd i hynny gael ei wneud o leiaf unwaith bob pum mlynedd.

(**Trafodaeth:** Y bwriad yw na fydd angen adolygu'r Cynllun cyn diwedd tymor y Cynulliad presennol ac mae ymestyn y tymor hwnnw i bum mlynedd yn gwneud y newid hwn yn angenrheidiol er mwyn cyflawni hyn.)

5.2 Roedd nifer o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn dadlau y dylai'r Bil a'r Cynllun osod dyletswyddau ar Aelodau'r Cynulliad o ran y ffordd y meant yn cysylltu â'r cyhoedd (ee yn ei gwneud yn ofynnol eu bod yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg) ac ar y Cynulliad fel corff

deddfwriaethol (ee trwy ei gwneud yn ofynnol yn ffurfiol bod asesiad yn cael ei gynnal o effaith y ddeddfwriaeth arfaethedig ar yr iaith Gymraeg). Beth bynnag fo rhinweddau cynigion o'r fath, byddent yn sicr y tu hwnt i gwmpas y Bil cyfredol a'r Cynllun ac yn arwain at faterion cyfansoddiadol o bwys nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad presennol. Argymhellir, felly, na ddylid ymestyn y cynigion presennol i gynnwys darpariaethau o'r fath.

**Y Cynllun**

5.3 Gwahoddir y Comisiwn i ystyried y diwygiadau a ganlyn i'r Cynllun. Caiff rhai eu cynnig yn sgil yr ymatebion a gafwyd fel rhan o'r broses ymgynghori. Awgrymwyd newidiadau ychwanegol er mwyn adlewyrchu arferion presennol yn well ac i hwyluso dealltwriaeth:

a. newid enw'r Cynllun i'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol (yn unol â'r diwygiad arfaethedig i'r Bil);

b. ailddrafftio paragraffau perthnasol y Cynllun i adlewyrchu penderfyniad y Comisiwn o ran Cofnod o Drafodion y Cyfarfod Llawn;

c. newid yr adran "Defnyddio technoleg gwybodaeth dwyieithog" yn sylweddol i adlewyrchu'n well y cynnydd hyd yma o ran rhoi argymhellion y Panel Annibynnol ar Wasanaethau Dwyieithog ar waith;

ch. gwella a chryfhau geiriad yr adran ar y cymorth sydd ar gael i staff i wella ymwybyddiaeth o'r iaith a sgiliau dwyieithog i adlewyrchu arferion presennol yn well;

d. adolygu ac ail-eirio'r adran sy'n nodi'r weithdrefn ar gyfer cyhoeddi tystiolaeth ysgrifenedig;

dd. cynnwys paragraffau sy'n egluro pam bod gohebiaeth rhwng Aelodau Cynulliad unigol a'r cyhoedd y tu hwnt i gwmpas y cynllun;

e. adolygu geiriad y gwasanaethau i ymwelwyr (teithiau, ateb y ffôn, contractwyr sy'n ymwneud â'r cyhoedd) er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu arferion presennol;

f. drafftio a chynnwys paragraffau esboniadol ar y cysylltiad rhwng y Bil a'r Cynllun a Mesur y Gymraeg 2011 a Chomisiynydd y Gymraeg;

ff. ei gwneud yn fwy amlwg ein bod yn cynnig y dylai pob aelod o staff gael eu hannog i siarad rhywfaint o Gymraeg ac nad bwriad y dyhead hwn yw effeithio ar hawliau unigol staff.

**6.0 Camau pellach**

6.1 Bydd Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil, sy'n ymgorffori Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn cael ei baratoi mewn ymgynghoriad â Rhodri Glyn Thomas AC ac Angela Burns AC.

6.2 Caiff y Bil (a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef) ei gyflwyno, a'r Cynllun arfaethedig ei osod, ym mis Ionawr 2012. Y dyddiad y disgwylir i'r Bil ddod yn gyfraith ac i'r Cynllun ddod i rym yw mis Medi 2012.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Rhan 1 – Y Bil Ieithoedd Swyddogol (Cymru)**

**Materion y croesewir sylwadau arnynt yn benodol**

a) A ydych yn cytuno bod angen diweddaru'r fframwaith cyfreithiol mewn perthynas â safonau'r ddarpariaeth ddwyieithog yng ngwaith y Cynulliad Cenedlaethol?

b) Beth yw eich barn ar ddull cyffredinol y Bil, sef y dylid cynnwys datganiadau clir ynglŷn â statws y Gymraeg a'r Saesneg yn nhrafodion y Cynulliad Cenedlaethol ac yn swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad ar wyneb Deddf Llywodraeth Cymru 2006?

c) A ydych yn cytuno y dylai'r datganiadau hyn ei gwneud yn glir fod y Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd swyddogol y Cynulliad Cenedlaethol ac y dylid eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal?

d) Os na, pa ddull amgen ddylid ei fabwysiadu?

e) A ydych yn cytuno y dylai manylion y modd y dylid cyflawni'r egwyddor o ddwyieithrwydd yn ymarferol gael eu cynnwys mewn Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog i'w baratoi gan Gomisiwn y Cynulliad?

f) Os na, drwy ba ffyrdd eraill y dylid diffinio'r manylion am sut y caiff dwyieithrwydd ei gyflawni yn y Cynulliad Cenedlaethol?

g) A ydych yn cytuno y dylai Comisiwn y Cynulliad, wrth lunio a gweithredu'r Cynllun, fod yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol?

h) A ddylai Comisiwn y Cynulliad fod yn atebol i unrhyw un arall, naill ai yn ogystal â bod yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol neu ar wahân i'r Cynulliad Cenedlaethol?

i) A ddylai'r bylchau rhwng cyfnodau adolygu'r Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog gael eu cysylltu â phob tymor Cynulliad Cenedlaethol (p'un ai yw'r tymor yn un pedair neu bum mlynedd)?

j) Os na, pa mor aml ddylid ei adolygu?

k) A oes gennych unrhyw sylwadau ar ddarpariaethau manwl y Bil drafft?

**Rhan 2 – Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog**

**Materion y croesewir sylwadau arnynt yn benodol**:

a) A ydych yn cytuno y dylai'r manylion ynghylch sut y bydd yr egwyddor o ddwyieithrwydd yn cael ei wireddu'n ymarferol gael eu gosod mewn cynllun gwasanaethau dwyieithog a gaiff ei baratoi gan Gomisiwn y Cynulliad a'i gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol?

b) Os nad ydych yn cytuno â hyn, sut ddylai'r manylion ynghylch y modd y bydd dwyieithrwydd yn cael ei wireddu yn y Cynulliad Cenedlaethol gael eu diffinio?

c) Beth yw eich barn chi ar ddull cyffredinol y cynllun o fynd i'r afael â'r mater hwn?

d) Pa ddulliau amgen y dylid eu mabwysiadu, os o gwbl?

e) Beth yw eich barn chi am y gwasanaethau dwyieithog y byddwn yn eu darparu i'r cyhoedd, yn unol â chynigion y cynllun?

f) A ydym wedi cynnig ffyrdd priodol a digonol i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod y sawl sydd am gyfathrebu â ni yn Gymraeg yn cael eu trin mewn modd teg?

g) Yn eich barn chi, a oes unrhyw bwyntiau ychwanegol na chafodd eu cwmpasu gan y Cynllun drafft?

h) A oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud ynghylch y Cynllun a sut y caiff ei weithredu?

**Cefndir yr ymgynghoriad**

Lansiwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Bil drafft Ieithoedd Swyddogol a'r Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog drafft yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar 3 Awst 2011 a daeth i ben ar 14 Hydref. **Gofynnwyd i'r cyhoedd roi eu sylwadau ar y Bil drafft a'r Cynllun drafft.**

Roedd y llythyr ymgynghori ar y Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog Drafft yn cynnwys wyth cwestiwn a'r llythyr ymgynghori ar y Bil Ieithoedd Swyddogol yn cynnwys 11 cwestiwn.

**Ymatebion i'r ymgynghoriad**

Cafwyd **59 ymateb i'r ymgynghoriad.**

*Ymatebion nad oedd yn rhoi barn.*

O'r rhain, roedd un wedi dod gan Senedd Canada yn amlinellu sut y mae dwyieithrwydd yn gweithio yno ac un gan Drenau Arriva Cymru a nodai nad oedd ganddynt faterion i'w codi nac awgrymiadau pellach i'w gwneud ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn.

*Ymatebion a oedd yn rhoi barn*

O'r 57 ymateb arall, darparwyd 50 yn uniaith Gymraeg a saith yn uniaith Saesneg. Er nad oes modd gwneud tybiaethau ar sail iaith y rhai a ymatebodd, mae'n werth nodi fod pob un o'r rhai a oedd wedi ymateb yn Gymraeg o blaid y Bil a'r Cynllun, neu wedi cynnwys awgrymiadau i'w cryfhau. Ar y llaw arall, roedd y rhai a oedd wedi ymateb yn Saesneg yn gyffredinol yn eu herbyn. Yn gyffredinol, nid oedd yr ymatebion yn tueddu i ymateb i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad, sy'n golygu bod dadansoddi'r canlyniadau neu ddod i gasgliadau ar sail yr ymgynghoriad yn fwy anodd.

**Nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad fesul iaith**

O'r 50 ymateb a ddarparwyd yn Gymraeg, roedd 40 ohonynt wedi'u seilio ar ymateb templed a gyhoeddwyd ar wefan Cymdeithas yr Iaith; roedd 32 ohonynt yn union yr un fath â'i gilydd ac wyth yn amrywio ychydig ar yr un thema. Mae hyn yn cyfateb i ddwy ran o dair o gyfanswm yr ymatebion felly mae angen ystyried yr holl ymatebion yng ngoleuni hyn. Anfonwyd dau o'r ymatebion gan yr un person, un ar ran Cymdeithas yr Iaith ac un fel unigolyn.

Roedd chwech o'r ymatebion uniaith Saesneg gan aelodau o'r cyhoedd.

Roedd un ymateb yn Saesneg gan sefydliad, Agored Cymru, a nododd ei fod o blaid y Bil a'r Cynllun.

**Crynodeb o'r ymatebion cefnogol**

Roedd mwyafrif yr ymatebion a oedd yn cefnogi'r Bil a'r Cynllun, sef 40, wedi'u seilio ar ymateb templed a gyhoeddwyd ar wefan Cymdeithas yr Iaith.

O'r 11 nad oedd wedi'u seilio ar y templed, roedd ymatebion gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg; swyddog polisi o Fwrdd yr Iaith; Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru; grŵp o swyddogion iaith Gymraeg o Dde Cymru; Athro o Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd; Mentrau Iaith Cymru; Agored Cymru, (sefydliad sy'n hybu cyfleoedd dysgu gydol oes a datblygu drwy gymwysterau o ansawdd uchel a chlod); ymgynghorydd cyfathrebu a chyfieithydd annibynnol. Cafwyd ynddynt amrywiaeth o gefnogaeth gref i'r Cynllun ac awgrymiadau o ran sut i gryfhau ei gynnwys. Mae awgrymiadau unigol penodol i'w hystyried wedi'u nodi yn Adran 5 y Papur (uchod). Cytunodd awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri â phob cwestiwn yr ymgynghoriad. Cafwyd ymateb hefyd gan Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor, a nododd ei chytundeb llwyr â'r egwyddor o ddwyieithrwydd yng ngweithrediadau'r Cynulliad. Ni chynigiwyd sylwadau ar gynnwys y Bil Drafft na'r Cynllun Drafft, ond rhoddwyd cyngor ar dechnoleg cyfieithu awtomatig, drafftio dogfennau yn Gymraeg yn gyntaf a'r diwydiant technoleg cyfieithu.

**Prif themâu'r ymatebion oedd:**

- cefnogaeth gyffredinol i osod dyletswydd i ddarparu cofnod cwbl ddwyieithog o drafodion y Cyfarfod Llawn ar wyneb y Bil gan bron bob un o'r ymatebwyr;
- yr angen am drefniadau adrodd a chraffu cadarn mewn perthynas â pherfformiad yn erbyn y Cynllun;
- roedd rhai galwadau i'r Cynulliad arwain trwy esiampl o ran cefnogi'r Gymraeg a pholisi a darpariaeth o ran y Gymraeg;
- gwrthwynebiadau o ran cydraddoldeb a phobl yn cael yr hawl i gyfrannu yn eu dewis iaith; ac
- mewn cysylltiad â'r iaith a ddefnyddir yn y Cynulliad Cenedlaethol, roedd y sylwadau'n amrywio o gynyddu cryfder y targed fod gan yr holl staff rywfaint o sgiliau yn yr iaith at anelu bod yr holl staff yn ddwyieithog.


**Yn ychwanegol, cafwyd awgrymiadau unigol i newid adrannau penodol o'r Bil neu'r Cynllun. Ceir rhestr o'r rhain yn Adran 5.1 a 5.3.**

**Crynodeb o'r ymatebion yn erbyn**

Roedd y chwe ymateb yn erbyn y Cynllun a'r Bil yn sylwadau cyffredinol gan aelodau'r cyhoedd yn bennaf.  Roedd rhai sylwadau penodol ar y Cynllun neu'r Bil:

- ar wahân i un person a roddodd gyflwyniad cyffredinol, byr, roedd pob un yn mynegi gwrthwynebiad cryf o ran y gost. Nododd un ymatebwr y pwynt bod angen nodi'r gost ar gyfer y polisi hwn a pholisïau eraill sy'n hyrwyddo'r Gymraeg;
- yn gyffredinol, roedd pawb o'r farn nad oedd y polisi'n adlewyrchu anghenion y mwyafrif o boblogaeth Cymru a nododd rhai ymatebwyr eu bod yn teimlo y dylid gwario'r arian yn fwy doeth yn rhywle arall o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol;
- nodwyd gwrthwynebiad o ran cyfle cyfartal i fwyafrif y boblogaeth nad ydynt yn siarad Cymraeg a'r canfyddiad eu bod yn cael eu hallgáu o swyddi yn y sector cyhoeddus a ddaw yn sgil y Bil /Cynllun;
- codwyd pryderon gan ddau o'r rhai a ymatebodd am ba mor wael y cafodd yr ymgynghoriad ei hysbysebu a'r diffyg ymwybyddiaeth yn ei gylch ymhlith y cyhoedd;
- cafwyd dau alwad am refferendwm yn ymwneud â'r mater ehangach o wariant ar ddwyieithrwydd yn y sector cyhoeddus cyfan.

*Dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad yn ôl yr iaith a ddefnyddiwyd*




**Cynrychioldeb**

Ni ellir tybio, o natur yr ymatebion, eu bod yn cynrychioli'r boblogaeth gyfan nac yn adlewyrchu barn y boblogaeth honno. Un eglurhad posibl yw bod rhai rhannau o'r boblogaeth yn cymryd mwy o ddiddordeb yn y mater hwn nac eraill.

O'r ymatebion a gafwyd, roedd rhai yn ymateb yn uniongyrchol i gwestiynau'r ymgynghoriad, rhai yn ymateb yn gyffredinol i'r ymgynghoriad a rhai yn ymateb i'r egwyddor o hyrwyddo / cydraddoldeb ieithoedd yn gyffredinol. O ganlyniad i'r nifer isel o  ymatebion, nid oes modd tybio y byddai'r poblogaethau perthnasol yn cytuno ar y safbwyntiau hyn.

Comisiwn y Cynulliad
Assembly Commission

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**AC(4)2011(6) Papur 3**

**Dyddiad:** 24 Tachwedd 2011
**Amser:** 9.30–11.30
**Lleoliad:** Swyddfa'r Llywydd
**Enw'r awdur a'i rhif ffôn:** Dianne Bevan, 8991

# Y wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Rheoli Carbon

## 1.0 Diben a chrynodeb o'r materion

1.1 Mae'r papur hwn yn rhoi cyfle i'r Comisiwn ystyried y Strategaeth Rheoli Carbon y cytunwyd arni ym mis Tachwedd 2009 gan y Comisiwn blaenorol. Rhoddir eglurhad ar y cynnydd a wnaed yn ystod ail flwyddyn y strategaeth (2010–11), ynghyd ag amlinelliad o'r camau pellach y bydd angen eu cymryd dros y tair blynedd nesaf er mwyn cyrraedd y targed lleihau carbon o 40 y cant.

## 2.0 Argymhellion

2.1 Argymhellir bod y Comisiwn:

a. yn nodi'r llwyddiant o ran cyrraedd ein targed lleihau carbon ym Mlwyddyn 2 (2010–11);

b. yn ystyried ei strategaeth Rheoli Carbon ar gyfer y dyfodol; ac

c. yn ystyried, mewn egwyddor, y gwaith a fydd yn angenrheidiol i helpu i leihau carbon ymhellach.

## 3.0 Strategaeth

3.1 Ym mis Tachwedd 2009, cymeradwyodd y Comisiwn blaenorol Strategaeth Rheoli Carbon a chytunodd i gyflawni'r nod o fod yn Gynulliad carbon niwtral erbyn 2015. Prif amcanion y strategaeth yw:

- cyrraedd targedau lleihau allyriadau blynyddol o 8 y cant ar gyfer ynni a 3 y cant ar gyfer lleihau teithio ar fusnes (cyfanswm o 40 y cant erbyn 2015); a

- bod yn Gynulliad carbon niwtral erbyn 2015 (gan ganolbwyntio ar leihau allyriadau fel bod y carbon mor isel â phosibl ac ystyried yr achos dros wrthbwyso carbon yn y pen draw).

3.2 Mae strategaeth Comisiwn newydd y Pedwerydd Cynulliad yn cynnwys amcanion i hyrwyddo Cymru a gwaith y Cynulliad ac i ddefnyddio adnoddau'n ddoeth. Mae Deddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol bod y Comisiwn yn arfer ei swyddogaethau gan roi sylw dyledus i egwyddor hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Cawn ein cydnabod fel corff seneddol blaenllaw o ran cynaliadwyedd ac mae'r strategaeth Rheoli Carbon yn cefnogi hyn.

3.3 Nid yw'r Cynulliad yn cymryd rhan gyflawn yng Nghynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon[1] gan fod ein hôl troed carbon o ran ynni yn is na'r trothwy ar hyn o bryd. Ymhen amser, bydd trothwy'r cynllun yn gostwng, ond cyhyd â'n bod yn parhau i leihau ein defnydd o ynni, mae'n debygol y byddwn yn parhau i fod wedi ein heithrio. Rydym wedi cofrestru 'datgeliad gwybodaeth', sy'n cynnwys ein data ynni yn unol â chanllawiau'r cynllun.

3.4 Er mwyn parhau â'r cynnydd a wnaed a chyflawni'r amcanion a bennwyd yn 2009, byddai angen buddsoddi yn Nhŷ Hywel, yr adeilad sy'n creu'r swm mwyaf o garbon. Mae'r papur yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma ac yn nodi'r buddsoddiad fydd ei angen i sicrhau bod y cynnydd hwn yn parhau. Bydd y Comisiwn am ystyried ei strategaeth ar gyfer y dyfodol yn y cyd-destun hwn.

**4.0 Y wybodaeth ddiweddaraf am hynt y strategaeth**

4.1 Mae **Atodiad A** yn rhoi rhagor o fanylion am y cynnydd a wnaed hyd yma a'r camau gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer y dyfodol fel rhan o'r strategaeth. Yn gryno, ym Mlwyddyn 2 (2010-11), llwyddwyd i sicrhau gostyngiad o 11.1 y cant yn yr allyriadau ynni drwy'r ystâd. Roedd hyn 31 y cant yn fwy na'n cyfrifiadau gwreiddiol ac mae'n cyfateb i arbediad o 182 tunnell o garbon a chostau o £50,000.

4.2 Yn debyg i Flwyddyn 1, rydym wedi lleihau ein hallyriadau sy'n deillio o deithio ar fusnes 18.7 y cant, gan wella ar y targed gwreiddiol unwaith eto, sef 3 y cant y flwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i arbediad o 40 tunnell o garbon a chostau o £61,000 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae'n bosibl, wrth inni wneud cynnydd yn y Pedwerydd

[1] Cynllun gorfodol i sicrhau effeithlonrwydd ynni drwy'r DU sy'n berthnasol i sefydliadau mawr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Cynulliad, y bydd rhagor o deithio ar fusnes, i gyd-fynd ag amcan strategol y Comisiwn newydd o hyrwyddo Cymru yn y byd ehangach.

4.3 Yn gyffredinol, rydym wedi sicrhau gostyngiadau o 19 y cant hyd yma o ran ein hallyriadau ar sail y targed o 40 y cant erbyn 2015, sy'n cyfateb i arbediad o 465 tunnell o garbon.

**5.0 Edrych i'r dyfodol**

5.1 Er y cafwyd cynnydd da iawn hyd yma, gwnaethom gyflawni hyn drwy fuddsoddi ychydig iawn o arian a chymryd camau cymharol rwydd. Bydd angen i ni gymryd camau arwyddocaol i gynnal y cynnydd a wnaed ac i gyrraedd y targedau a bennwyd gan y Comisiwn blaenorol. Yn benodol, bydd angen gwneud rhagor o addasiadau i Dŷ Hywel. Dim ond drwy fuddsoddi mewn technoleg gydnabyddedig y bydd modd sicrhau bod perfformiad Tŷ Hywel yn gwella yn y tymor hir, a bydd hyn yn ein helpu i gyrraedd ein targedau a sicrhau nad ydym mor agored i gostau ynni sy'n codi.

5.2 Ein dull presennol o oeri Tŷ Hywel drwy ddefnyddio system aerdymheru yw'r dull sy'n creu'r swm mwyaf o garbon yng ngweithrediad yr adeilad. Byddai modd newid y system aerdymheru, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, drwy gael ffenestri newydd sydd wedi'u cynllunio'n well ac sy'n rhannol awtomatig, a fydd yn cefnogi dull awyru naturiol effeithlon. Mae amcangyfrifon cost am waith o'r fath wedi'u llunio yn dilyn astudiaethau ymarferoldeb a wnaethpwyd yn broffesiynol gyda chymorth yr Ymddiriedolaeth Garbon ac Arup Ltd. Mae'r costau'n sylweddol - yn agos at £4 miliwn i gael ffenestri newydd yn Nhŷ Hywel - er y bydd angen prynu ffenestri newydd o fewn oddeutu'r 10 mlynedd nesaf beth bynnag fel rhan o'n cyfrifoldebau i gynnal a chadw'r adeilad am gost amcangyfrifiedig o £1.7 miliwn.

5.3 Ar sail arbedion a amcangyfrifir o gostau ynni ar hyn o bryd yn unig, a heb ystyried yr angen i brynu ffenestri newydd beth bynnag, byddai'r buddsoddiad hwn yn cael ei ad-dalu mewn 19 mlynedd. Pe bai costau ynni'n codi, byddai'r cyfnod talu'n ôl yn llai. Gan ystyried yr angen i brynu ffenestri newydd beth bynnag, byddai costau ychwanegol yr opsiwn awyru naturiol yn lleihau'r cyfnod talu'n ôl i 16 mlynedd. Os byddwn hefyd yn defnyddio lefel chwyddiant o 5 y cant mewn costau ynni, bydd hyn yn lleihau'r cyfnod talu'n ôl i 12 mlynedd. Byddai'r Cynulliad yn arbed oddeutu 800 tunnell o allyriadau carbon o gymharu lefel presennol yr allyriadau a lefel yr allyriadau a ragfynegir ar ôl buddsoddi a byddai'n cynnal y lefel is hwn o allyriadau ar gyfer y

blynyddoedd nesaf. Byddai hyn hefyd yn lleihau neu'n dileu'r angen i wrthbwyso carbon, sydd hefyd yn costio arian.

5.4 Er mwyn asesu manteision dull gweithredu o'r fath, byddai modd i ni brofi'r ffenestri rhannol-awtomatig mewn rhan addas o Dŷ Hywel am flwyddyn. Amcangyfrifir y byddai angen £0.4 miliwn fel buddsoddiad cychwynnol ar gyfer hyn. Yn amodol ar ganlyniad y cynllun peilot, mae'n bosibl y gellid prynu rhagor o ffenestri newydd drwy'r adeilad fesul cam dros gyfnod o bum mlynedd, fel rhan o'n rhaglen fuddsoddi flynyddol.

## 6.0 Casgliad

6.1 Mae'r strategaeth Rheoli Carbon yn hynod o werthfawr o ran hybu datblygu cynaliadwy a lleihau effaith gweithgareddau'r Cynulliad ar yr amgylchedd. Mae'r cynnydd yn yr ail flwyddyn yn dda iawn ac mae'n datblygu llwyddiant y flwyddyn gyntaf i ddarparu llwyfan cadarn ar gyfer sicrhau lleihad pellach mewn carbon. Ond, o gofio graddfa'r camau y bydd angen eu cymryd yn y dyfodol i weithredu'r strategaeth, mae'n gywir bod y Comisiwn newydd yn adolygu'r ymrwymiadau hyn.

## 1.0 Y Strategaeth Rheoli Carbon – y cynnydd hyd yma

1.1 Yn 2008-09, roedd ôl troed carbon y Cynulliad yn 2,890 tunnell o $CO_2$. Deuai'r rhan fwyaf o hwn o ddwy brif ffynhonnell:

i) y defnydd o ynni yn adeiladau'r Cynulliad; a

ii) teithio ar fusnes (yn y gwaith).

1.2 Mae'r Cynllun Rheoli Carbon yn gosod targed o 40 y cant i leihau allyriadau $CO_2$, sydd i'w gyrraedd erbyn 2015. Roedd y cynllun i weithredu'r strategaeth Lleihau Carbon yn cynnwys rhestr o brosiectau a allai gynhyrchu 380 tunnell yn llai o allyriadau carbon dros gyfnod y rhaglen.

*Tabl 1.0 Y cynnydd hyd yma o ran y prosiectau hyn*

| Manylion y pecynnau gwaith a ddewiswyd | Y cynnydd hyd yma |
|---|---|
| Model cyfredol yr adeilad presennol i asesu pa mor ymarferol yw'r opsiynau awyru naturiol. | Mae profion ac astudiaethau ymarferoldeb ar yr adeilad wedi dangos y gellir newid yn ôl i gael system awyru naturiol yn llwyddiannus. |
| Goleuadau sy'n synhwyro symudiadau drwy'r adeilad | Mae'r rhaglen barhaus i osod goleuadau PIR drwy'r swyddfa'n parhau i gael ei rhoi ar waith, yn ddibynnol ar y gyllideb sydd ar gael. Mae oddeutu 500 o oleuadau i'w newid o hyd yn Nhŷ Hywel. |
| Synwyryddion PIR mewn ystafelloedd cyfarfod, systemau aerdymheru a goleuadau'r meysydd parcio. | Mae synwyryddion PIR wedi'u gosod mewn ystafelloedd cyfarfod a chynadledda gydag unedau aerdymheru unigol. Felly, bydd yr unedau hyn yn diffodd yn awtomatig pan fydd yr ystafelloedd hyn yn wag.<br><br>Cysylltwyd synwyryddion PIR hefyd â'r goleuadau yn y maes parcio tanddaearol er mwyn galluogi'r goleuadau i ddiffodd pan na fydd pobl yn bresennol yn y maes parcio hwnnw. |

| **Manylion y pecynnau gwaith a ddewiswyd** | **Y cynnydd hyd yma** |
|---|---|
| Ffitiadau T5 (i gymryd lle'r ffitiadau T8 presennol) | Gosodwyd hwy drwy'r adeilad. |
| Goleuadau LED yn y meysydd parcio | Mae goleuadau LED mwy effeithiol wedi'u gosod yn y maes parcio allanol |
| Man penodol i ddefnyddio dŵr poeth domestig trydanol | Gosodwyd hwy ym mhob cegin staff a mannau gwneud te, a gosodwyd switshis amseru fel bod y rhain yn cael eu diffodd y tu allan i oriau gwaith yn y swyddfa. |
| Gwelliannau i'r system awyru mecanyddol | Gweler y gyriannau cyflymder amrywiol isod. |
| Gwella dulliau adfer gwres | Gwnaed addasiadau i uned trin awyr bloc B er mwyn gwella dulliau adfer gwres yn y fan hon. |
| Pympiau/gwyntyllau cyflymder amrywiol | Gosodwyd gyriannau cyflymder amrywiol ym mhob gwyntyllydd a phwmp er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni'r systemau cynhesu ac oeri. |
| Inswleiddio waliau a thoi (yn unol â'r rheoliadau) | Strategaeth tymor hwy barhaus |
| Gwella effeithlonrwydd boeleri a pheiriannau oeri | Gosodwyd modelau mwy effeithlon o ran ynni yn lle dau o'r tri oerwr. Mae prynu boeleri newydd yn rhan o'r strategaeth yn y tymor hwy. |
| Gwella ymdreiddiad | Mae hidlyddion awyr effeithiol iawn wedi'u lleoli ar unedau trin awyr er mwyn gwella llif yr awyr. Caiff yr hidlyddion eu hadnewyddu o bryd i'w gilydd yn ôl y gofyn. |
| Strategaeth awyru sy'n defnyddio dulliau cymysg | Paratowyd manyleb a chostau llawn, ynghyd â chynllun manwl o'r gwaith arfaethedig ar gyfer yr arbrawf ar y llawr cyntaf yn Nhŷ Hywel. Defnyddir y safle |

| Manylion y pecynnau gwaith a ddewiswyd | Y cynnydd hyd yma |
|---|---|
| | hwn i brofi'r cynllun er mwyn penderfynu a oes modd gwireddu egwyddorion sylfaenol y system awyru naturiol. |
| System awyru cwbl naturiol | Mae strategaeth arfaethedig ar gyfer y tymor hwy yn mynd rhagddi |

1.3 Ym Mlwyddyn 2, datblygwyd cynllun gweithredu ychwanegol, a nodir y cynnydd ar sail y camau gweithredu hyn isod.

*Tabl 2.0 Y cynnydd hyd yma yn ôl y camau allweddol a nodwyd ym Mlwyddyn 2*

| Manylion am y camau a ddewiswyd | Cynnydd hyd yma |
|---|---|
| Asesu arbedion effeithiolrwydd yn sgil diffodd offer TGCh newydd yn awtomatig | Mae hyn yn digwydd ar hyn o bryd a, phan fydd y gwaith wedi'i gwblhau, caiff y canlyniadau eu cyhoeddi. |
| Gwella arferion deiliaid yr adeilad drwy gyfathrebu'n uniongyrchol â hwy ynghylch materion amgylcheddol | Rhan o'r strategaeth ar gyfer gwella dulliau casglu data a thechnegau dadansoddi i hwyluso'r dasg o gyflwyno adroddiadau rheolaidd ynghylch perfformiad. |
| Cyhoeddi data perfformiad yn fisol er mwyn annog perchnogaeth o ffigurau defnyddio ynni. | Gweler uchod. |
| Adolygu safleoedd y gweinyddion cyfrifiadurol | Mae safleoedd y gweinyddion cyfrifiadurol wedi'u hadolygu er mwyn gwella eu heffeithlonrwydd o ran defnyddio ynni a lleihau'r lefelau oeri. |
| Asesu pa mor ymarferol yw cael system oeri am ddim ar gyfer gweinyddion cyfrifiadurol Tŷ Hywel yn ystod misoedd y gaeaf. | Rhoddwyd hyn ar waith yn llwyddiannus gan ddefnyddio awyr oer o'r maes parcio tanddaearol i oeri ystafell y gweinyddion ar y llawr gwaelod. Mae'r awyr yn ddigon oer |

| Manylion am y camau a ddewiswyd | Cynnydd hyd yma |
|---|---|
| | i'w ddefnyddio am y rhan fwyaf o'r flwyddyn. |

1.4 Nodwyd gennym hefyd y byddem yn sicrhau'r gostyngiad o 380 tunnell sy'n weddill drwy System Rheoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd. Mae hyn yn parhau i fod yn hynod o effeithiol o ran hybu newid diwylliannol, gwella ymgysylltiad staff a newid meddyliau a dyheadau.

1.5 Y lleihad yng nghyfanswm yr ynni a ddefnyddir a'r cynnydd yn y dewisiadau cynaliadwy ar gyfer teithio ar fusnes yw'r arwyddion amlycaf bod cynaliadwyedd yn dechrau cael ei ymgorffori mewn busnes bob dydd. Ond, bydd yr heriau mwy, fel gweithio mewn lleoliadau a gaiff eu hawyru'n naturiol, y cynnydd yn nifer y bobl sy'n gweithio gartref a'r ffaith bod rhannau o'r adeilad yn cael eu cau yn ystod rhai tymhorau, yn ei gwneud yn ofynnol bod rhagor o newidiadau hyd yn oed yn cael eu derbyn.

1.6 Mae'r tabl isod yn crynhoi sut y mae'r cynnydd a wnaed o ran y camau a gymerwyd wedi lleihau allyriadau CO2 ac wedi arwain at arbedion cost.

*Tabl 1.1 Arbedion Carbon ac Arbedion Cost*

| | Ynni (tC02e)[2] | Teithio ar fusnes (tC02e)* | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 2008-09 (blwyddyn sylfaen) | 2,653 | 237 | 2,890 |
| 2009/10 (blwyddyn 1) | 2,441 | 194 | 2,635 |
| Arbediad Carbon (tC02e) | 212 | 43 | 255 |

[2] Yn y cyfnod rhwng cynnal y broses o gyfrifo ôl troed carbon y Cynulliad drwy'r Cynllun Rheoli Carbon, a'r flwyddyn bresennol, mae Groundwork Wales - y sefydliad sy'n gyfrifol am weinyddu System Amgylcheddol y Ddraig Werdd - wedi penderfynu mabwysiadu ffactorau trosi Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar gyfer adrodd ynghylch nwyon tŷ gwydr oherwydd cânt eu diweddaru'n flynyddol. Mae hyn wedi arwain at ail-gyfrifo'r ffigurau ym mlwyddyn y llinell sylfaen (2008-09), sydd wedi arwain at gynnydd cyffredinol yn allyriadau ynni'r Cynulliad a gostyngiad yn yr allyriadau ar gyfer teithio. Nid yw hyn wedi newid yr ôl troed carbon cyffredinol yn sylweddol.

| | **Ynni (tC02e)**[2] | **Teithio ar fusnes (tC02e)*** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Arbediad Cost (£) | £50,000 | £150,000[3] | £200,000 |
| **2010/11 (Blwyddyn 2)** | 2,188 | 154 | 2,342 |
| **Arbediad Carbon (tC02e)** (o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol) | 253 | 40 | 293 |
| **Arbediad cost (£)** (o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol) | £50,000 | £61,250[2] | £111,250 |

**Edrych i'r dyfodol – Blwyddyn 3**

1.7 Bydd Blwyddyn 3 yn y strategaeth yn canolbwyntio ar yr arbrawf awyru naturiol ar lawr cyntaf Tŷ Hywel, gyda chymorth rhaglen gyfathrebu bwrpasol i hysbysu deiliaid y llawr cyntaf ynghylch y prosiect, i'w cynnwys ac i ymgysylltu â hwy. Ategir hyn gan y rhaglen barhaus i wella'r adeilad a rheoli ynni mewn modd strategol er mwyn nodi rhagor o gyfleoedd i leihau'r defnydd o ynni.

1.8 Her allweddol ar gyfer y Cynulliad, ac yn benodol ar gyfer y rheini sy'n gweithio yn safle'r arbrawf, fydd deall, cynorthwyo a chroesawu'r broses o drosglwyddo i system awyru naturiol a dangos parodrwydd i weithio'n hyblyg yn ôl y gofyn pan fydd y gwaith adeiladu angenrheidiol yn digwydd. Er mwyn cynnig y siawns gorau o gael canlyniad llwyddiannus, bydd angen sicrhau bod adnoddau ar gael i ariannu a chefnogi'r buddsoddiad sylweddol hwn er mwyn sicrhau mantais yn y tymor hir.

1.9 Mae cynllun gweithredu'r Ddraig Werdd ar gyfer 2011-12, sy'n cefnogi'r strategaeth, wedi'i adolygu'n ddiweddar gan y grŵp Clear Skies fel rhan o adolygiad rheoli blynyddol y Ddraig Werdd. Nodwyd y cynnydd a wnaed a'r camau sy'n angenrheidiol i'n cynorthwyo i gyflawni'r gostyngiad o 8 y cant yn y drydedd flwyddyn. Parheir i fonitro sut y gweithredir y cynllun drwy gydol y flwyddyn.

[3] Er bod yr arbediad carbon oddeutu'r un fath dros y ddwy flynedd, deilliodd yr arbediad cost sylweddol yn y flwyddyn gyntaf o ostyngiad mawr mewn teithio awyr, tra, yn yr ail flwyddyn, sicrhawyd arbedion carbon o ganlyniad i leihad yn y defnydd o geir yn unig, a arweiniodd felly at lai o arbedion cost.

1.10 Mae hwn yn gweithio ar y cyd â'r pecyn gwaith arfaethedig ar gyfer gwella system rheoli'r adeilad ym mlwyddyn 3 a welir isod:

*Cynllun Gweithredu – Blwyddyn 3*

| **Manylion am y camau a ddewiswyd** |
|---|
| Comisiynu arbrawf awyru naturiol i'w gynnal ar lawr cyntaf Tŷ Hywel |
| Parhau i osod synwyryddion PIR drwy Dŷ Hywel. |
| Datblygu dull integredig sy'n canolbwyntio ar reoli ynni a lleihau carbon |
| Cynnal asesiad cynhwysfawr o offer technoleg gwybodaeth ac offer electronig y Senedd er mwyn nodi rhagor o gyfleoedd i leihau'r defnydd o ynni. |
| Defnyddio Prosiect Adnewyddu'r Senedd fel cyfle i nodi rhagor o welliannau o ran cynaliadwyedd |
| Gwella arferion deiliaid yr adeilad drwy gyfathrebu'n uniongyrchol â hwy ynghylch materion amgylcheddol. |
| Cyhoeddi data perfformiad bob mis er mwyn annog perchnogaeth o'r rhaglen gynaliadwyedd. |
| Cynnal rhagor o arbrofion â haen Solaveil mewn mannau lle gellir gwneud y defnydd mwyaf o olau'r haul. |
| Asesu pa mor ymarferol yw ffrydio dŵr llwyd sydd dros ben o'r Senedd i Dŷ Hywel at ddibenion tynnu dŵr yn y toiledau. |
| Uwchraddio a/neu adnewyddu'r system rheoli adeiladau fel rhan o'r contract newydd i reoli cyfleusterau. |
| Ymchwilio i weld pa mor ymarferol yw gosod paneli PV solar ar do'r Senedd i ddarparu trydan adnewyddadwy. |
| Sichrau ein bod yn gwybod am ddatblygiadau technolegol newydd er mwyn nodi cyfleoedd i wella ein perfformiad cynaliadwy. |

1.11 Bydd y camau gweithredu a nodwyd uchod yn arwain at ragor o arbedion ariannol ac at ostyngiad mewn allyriadau carbon. Dylid nodi nad yw arbedion ariannol a sicrheir wedi'u neilltuo a'u hail-fuddsoddi

mewn rhagor o fentrau cynaliadwyedd ar hyn o bryd, ac efallai bod hyn yn rhywbeth y byddai modd ei ystyried ar gyfer y dyfodol.

**2.0 Gwrthbwyso**

2.1 Nodwyd yn y strategaeth Rheoli Carbon mai ein ffocws hyd at 2015 fydd lleihau carbon yn unig. Yn unol â hyn, nid ydym wedi gwrthbwyso dim allyriadau ym Mlwyddyn 2. Er ein bod wedi cynnig gwrthbwyso allyriadau a ddaw o deithio awyr a defnydd o geir preifat Aelodau ar unwaith, ni fu angen gwneud hyn o ganlyniad i'r gostyngiad parhaus mewn teithio ar fusnes.

2.2 Fodd bynnag, wrth gydnabod pwysigrwydd yr amcan strategol newydd i 'Hyrwyddo Cymru', ac o ystyried effaith bosibl hyn ar deithio, byddwn yn monitro ac yn annog dewisiadau teithio cynaliadwy lle bo hynny'n bosibl er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o gyflwyno dulliau gwrthbwyso.

2.3 Pe byddem yn dewis mabwysiadu dulliau gwrthbwyso ym Mlwyddyn 3, bydd yr adnoddau ariannol y bydd eu hangen yn cael eu cynnwys yn y gyllideb.

# Eitem 4

Barnwyd nad yw r papur hwn yn addas i w gyhoeddi yn unol ârheolau r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Comisiwn y Cynulliad
Assembly Commission

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**AC(4)2011(6) Papur 5**

**Dyddiad:** 24 Tachwedd 2011
**Amser:** 9.30–11.30
**Lleoliad:** Swyddfa'r Llywydd
**Enw a rhif cyswllt yr awdur:** Nicola Callow, 8054

# Cyllideb atodol 2011–12

## 1.0 Diben a chrynodeb o'r materion

1.1 Roedd Cyllideb 2011–12 yn darparu ar gyfer cronfeydd ar wahân yn ymwneud â chostau etholiadau. Y cronfeydd y cytunwyd arnynt oedd £3.460m ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a £0.655m ar gyfer Gwasanaethau'r Cynulliad.

1.2 Roedd y Gyllideb yn ei gwneud yn glir y byddai'r Comisiwn yn ceisio dychwelyd unrhyw arian dros ben i floc Cymru drwy gyfrwng y gyllideb atodol.

1.3 Tynnwyd sylw yn adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn ym mis Hydref fod y Bwrdd wedi bod yn penderfynu lefel yr arian sydd i'w ddychwelyd i floc Cymru. Mae'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf yn rhagweld y bydd gwariant Aelodau'r Cynulliad mewn cysylltiad ag etholiadau £1.8m yn llai na'r swm yn y gyllideb, ac ar gyfer Gwasanaethau'r Cynulliad y ffigur hwn fydd £0.2m.

## 2.0 Argymhellion

2.1 Argymhellir y dylai'r Comisiwn ddychwelyd £2.0m i floc Cymru drwy gyfrwng cynnig cyllidebol atodol.

## 3.0 Trafodaeth

3.1 Cafodd cyllideb etholiad Aelodau'r Cynulliad ei hamcangyfrif ar y sail na fyddai 30 o Aelodau yn dychwelyd i'r Cynulliad, am gost ar gyfartaledd o £115k. Y ffigur gwirioneddol oedd 23 o Aelodau am gost ar gyfartaledd o £70k. Gall y gwariant terfynol gael ei gyfrifo'n gywir erbyn hyn gan fod y mwyafrif o'r hawliadau wedi'u talu.

3.2 Rhagwelir tanwariant o £0.3m ar ddiwedd y flwyddyn yn y brif gyllideb o £13.034m ar gyfer tâl, lwfansau a staff cymorth yr Aelodau. Mae'r prif risgiau i'r rhagolwg yn deillio o newidiadau ym mhatrymau'r Aelodau o hawlio a chyfraddau trosiant ymhlith staff cymorth. Gan nad ydym yn

disgwyl dim effaith ariannol bellach oherwydd penderfyniadau gan y Bwrdd Taliadau eleni, mae digon o ddarpariaeth wrth gefn yn y tanwariant o £0.3m ar 31 Mawrth 2012 i ddarparu ar gyfer yr amrywiadau hyn. Felly, bach iawn yw'r risg o ddychwelyd £1.8m.

3.3 Roedd angen y gyllideb etholiadol ar gyfer Gwasanaethau'r Cynulliad o £655k er mwyn gwneud gwaith TGCh, adnewyddu swyddfeydd Aelodau'r Cynulliad, cyhoeddiadau a'r agoriad swyddogol. Mae'r rhagolwg diweddaraf yn dangos y bydd arnom angen £200k yn llai nag a ragwelwyd yn wreiddiol.

3.4 O ran y brif gyllideb o £31.673m ar gyfer Gwasanaethau'r Cynulliad, mae'r rhagolwg diweddaraf yn dangos tanwariant o £465k er ein bod yn disgwyl rheoli hwn i leihau'r tanwariant erbyn diwedd y flwyddyn. Yn ogystal, mae'r gronfa ailstrwythuro o £593k yn dal ar gael i'w defnyddio. Gan fod digon o gapasiti ac arian wrth gefn o fewn y gyllideb ar gyfer Gwasanaethau'r Cynulliad, bach iawn yw'r risg o ddychwelyd cyllideb etholiadol o £200k sydd heb ei defnyddio.

3.5 Yn dilyn trafodaethau gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, mae angen i ni ddarparu ffigurau cadarn ar gyfer y gyllideb atodol erbyn diwedd Tachwedd 2011. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru'n gosod Cyllideb Atodol 2011-12 yn gynnar yn 2012.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Comisiwn y Cynulliad
# Assembly Commission

**AC(4)2011(6) Papur 6**

**Dyddiad:** 24 Tachwedd 2011
**Amser:** 9:30-11:30
**Lleoliad:** Swyddfa'r Llywydd
**Enw a rhif cyswllt yr awdur:** Carys Evans, est 8598

## Portffolios Comisiwn y Cynulliad

### 1.0 Diben a chrynodeb

1.1 Mae'r papur hwn yn gwahodd Comisiynwyr y Cynulliad i roi diweddariad ar lafar am eu portffolios.

| **Portffolio** | **Comisiynydd** |
|---|---|
| Llywydd a Chadeirydd y Comisiwn, cyfrifoldeb dros y Gwasanaethau Cyfreithiol. | Rosemary Butler AC |
| Y gyllideb, llywodraethu, gan gynnwys aelodaeth y Pwyllgor Archwilio, a chysylltiadau â'r Bwrdd Taliadau. Gwella Gwasanaethau i Aelodau, cymorth cyflogaeth a datblygu proffesiynol ar gyfer Aelodau a'u staff. | Angela Burns AC |
| TGCh, darlledu ac e-ddemocratiaeth, ystâd y Cynulliad, cyfleusterau a chynaliadwyedd. Y Comisiwn fel cyflogwr staff y Cynulliad. | Peter Black AC |
| Gwasanaethau addysg, cyswllt cyntaf, arlwyo a diogelwch. Swyddogaethau statudol y Comisiwn mewn perthynas chydraddoldeb a Rhyddid Gwybodaeth. | Sandy Mewies AC |
| Ymgysylltu a chyfathrebu â'r dinesydd, allgymorth cenedlaethol a rhyngwladol. Swyddogaethau a pholisi'r Comisiwn mewn perthynas â'r Gymraeg. | Rhodri Glyn Thomas AC |

Er nad yw David Melding, y Dirprwy Lywydd, yn aelod ffurfiol o'r Comisiwn,cytunwyd y bydd yn cefnogi'r Comisiwn drwy ganolbwyntio ar y Pierhead fel canolfan ar gyfer datblygu a thrafod yn y Cynulliad, ac ar

gysylltiadau â Chanolfan Llywodraethiant Cymru a sefydliadau eraill sy’n berthnasol i’r rôl hon.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission**

**AC(4)2011(6) (Papur 7)**

**Dyddiad:** Dydd Iau 24 Tachwedd 2011
**Amser:** 09.30-11.30
**Lleoliad:** Swyddfa'r Llywydd
**Enw a rhif cyswllt yr awdur:** Carys Evans, est 8598

## Rhaglen dreigl Comisiwn y Cynulliad

| Dyddiad y cyfarfod | Eitem ar yr Agenda | Deiliad y Portffolio / swyddog arwain |
|---|---|---|
| **2 Chwefror 12** | Taliadau staff y Cynulliad (i'w cadarnhau) | Peter Black/Steve O'Donoghue |
| | Cynllun cydraddoldeb 2012-16 | Sandy Mewies/Steve O'Donoghue |
| | Cryfhau trefniadau llywodraethu | Angela Burns/Sandy Mewies/Steve O'Donoghue/Non Gwilym |
| | Penderfyniad ar y strategaeth TGCh (i'w gadarnhau) | Peter Black/Connie Cockburn |
| | Y diweddaraf am Ddeddfwriaeth Cymru Ar-lein | Llywydd/Keith Bush |
| | Y wybodaeth ddiweddaraf gan y deiliaid portffolio | Deiliaid portffolio |
| | Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn | Claire Clancy |
| | Y rhaglen dreigl | Ysgrifenyddiaeth |
| **8 Mawrth 12** | Taliadau staff y Cynulliad (i'w cadarnhau) | Peter Black/Steve O'Donoghue |
| | Adolygiad chwe mis o fanteision ac arbedion UNO | Peter Black/Connie Cockburn |
| | Y fframwaith ar gyfer adroddiad blynyddol a chyfrifon 2011-12 | Angela Burns/Rhodri Glyn Thomas/Non Gwilym/Steve O'Donoghue |
| | Penderfyniad ar y strategaeth TGCh (i'w gadarnhau) | Peter Black/Connie Cockburn |
| | Adolygiad o effeithiolrwydd y Comisiwn | Llywydd/Ian Summers |

**Rhaglen dreigl Comisiwn y Cynulliad**

| Dyddiad y cyfarfod | Eitem ar yr Agenda | Deiliad y Portffolio / swyddog arwain |
|---|---|---|
| | Y wybodaeth ddiweddaraf gan y deiliaid portffolio | Deiliaid portffolio |
| | Y rhaglen dreigl | Ysgrifenyddiaeth |
| **10 Mai 12** | Strategaeth ddrafft ar gyfer cyllideb 2013-14 | Angela Burns/Steve O'Donoghue |
| | Adolygiad o effeithiolrwydd y Comisiwn | Llywydd/Claire Clancy |
| | Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn | Claire Clancy |
| | Y rhaglen dreigl | Ysgrifenyddiaeth |
| **28 Mehefin 12** | Cymeradwyo adroddiad blynyddol a chcyfrifon 2011-12 | Llywydd/Claire Clancy |
| | Strategaeth ddrafft ar gyfer cyllideb 2013-14 | Angela Burns/Steve O'Donoghue |
| | Y wybodaeth ddiweddaraf gan y deiliaid portffolio | Deiliaid portffolio |
| | Y rhaglen dreigl | Ysgrifenyddiaeth |
| **12 Gorffennaf 12** | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Angela Burns/Steve O'Donoghue |
| **27 Medi 12** | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Angela Burns/Steve O'Donoghue |